Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y CABINET**
a gynhaliwyd **Ddydd Mawrth, 2 Tachwedd 2021**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm ddydd Dydd Iau, 4 Tachwedd 2021. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unryyw benderfyniad i mewn yw 5.00 pm ddydd Dydd Iau, 11 Tachwedd 2021 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau I rym (os na fydd yna gais idlys i'wgalw i mewn) ddydd Dydd Gwener, 12 Tachwedd 2021

**YN BRESENNOL;** Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Cynghorydd Dafydd Edwards, Cynghorydd Rhodri Evans, Cynghorydd Catherine Hughes, Cynghorydd Gareth Lloyd, Cynghorydd Catrin Miles, Cynghorydd Ray Quant MBE a/ac Cynghorydd Alun Williams

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Bryan Davies, Euros Davies, Elaine Evans, Lyndon Lloyd MBE, John Roberts, Lynford Thomas ac Ivor Williams.

(10.00 am - 12.03 pm)

**102 Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Cynghorydd Gareth Lloyd am ymuno a'r cyfarfod yn hwyr.

**103 Materion Personol**

i. Dywedodd yr Arweinydd mai dyma fydd cyfarfod Cabinet olaf Mrs Caroline Lewis, Cyfarwyddwr Corfforaethol, cyn iddi ymddeol o'r Cyngor. Diolchwyd iddi am ei gwaith rhagorol dros y blynyddoedd a dymunwyd yn dda iddi yn y dyfodol. Adleisiodd y Prif Weithredwr eiriau'r Arweinydd.

ii. Mae Mr James Starbuck newydd gael ei benodi yn Gyfarwyddwr Corfforaethol a dymunwyd yn dda iddo ar gyfer ei rôl newydd pan fydd yn dechrau arni ym mis Ionawr 2022.

iii. Croesawyd Kay Davies i'r cyfarfod am ei bod wedi dychwelyd i'w swydd yn Swyddog yn y Gwasanaethau Democrataidd yn rhan-amser, dros dro.

iv. Diolchwyd i'r staff am eu gwaith llwyddiannus wrth sicrhau £10.8m o gyllid o'r Gronfa Codi'r Gwastad. Mae'r cyllid hwn ar gyfer prosiectau a fydd o fudd i'r harbwr, y prom a'r Hen Goleg yn Aberystwyth.

v. Dymunwyd yn dda i Mr Gareth Rowlands ar gyfer ei ymddeoliad a diolchwyd iddo am ei waith caled yn sicrhau arian grant sylweddol i'r Sir dros y blynyddoedd.

vi. Estynnwyd llongyfarchiadau i Glybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion ar ôl iddynt gymryd rhan yn Eisteddfod CFfI Ceredigion y penwythnos diwethaf. Enillodd CFfI Llanwenog y gystadleuaeth gyfan. Dyfarnwyd gwobr Rhyddiaith yr Eisteddfod i Twm Ebbsworth, Llanwenog a dyfarnwyd gwobr Barddoniaeth yr Eisteddfod i Ianto Jones, Felinfach.

vii. Rhoddodd yr Arweinydd wybod yn y cyfarfod fod y Cyngor wedi llwyddo i gaffael tir yn Felinfach ar gyfer adeiladu ysgol ardal newydd.

**104 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Doedd dim datganiadau buddiannau personol / byddiannau sy'n rhagfarnu.

**105** **Diweddariad ar lafar gan Arweinydd y Cyngor parthed COVID-19**
Rhoddodd Arweinydd y Cyngor ddiweddariad ar lafar parthed COVID-19. Dywedodd fod 331 yn rhagor o achosion positif wedi bod yn y 7 diwrnod cyn 28 Hydref. Mae'r gyfradd fesul 100,000 bellach yn 455.3, sy'n ostyngiad. Nododd yr Arweinydd fod gostyngiad sylweddol wedi bod dros y dyddiau diwethaf o ran achosion positif. Ymddengys fod yr holl achosion positif ledled siroedd Cymru yn gostwng ar wahân i sir Wrecsam ond bod y siroedd sy'n ffinio â Cheredigion yn parhau i fod â niferoedd uchel.

Mae'r nifer uchaf o achosion positif yn parhau i fod ymhlith pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd ac, yn dilyn newidiadau yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru yr wythnos ddiwethaf, ni ddylai'r un disgybl fynychu'r ysgol os oes rhywun wedi profi'n bositif am COVID-19 ar yr aelwyd – dylai'r disgybl hunanynysu.

Mae yna nifer o achosion positif ymhlith aelodau'r staff yng nghartrefi gofal y sir – mae 3 chartref yn y categori ambr a phump yn y categori coch.

Mae llyfrgelloedd y sir yn parhau â'u gwasanaeth Clicio a Chasglu.
Mae'r canolfannau ailgylchu a gwastraff wedi ailafael yn eu gwasanaeth arferol.
Mae'r gwaith adfer yn parhau ym mhwll nofio Llanbedr Pont Steffan ac Aberystwyth ac yng nghanolfannau hamdden Aberystwyth ac Aberteifi. Y gobaith yw cyhoeddi dyddiadau ar gyfer ailagor cyn bo hir.

Nodwyd hefyd fod y tywydd gwael diweddar wedi achosi tirlithriadau yn Aberaeron. Diolchwyd i dimau'r Cyngor a fu ynghlwm wrth y gwaith o gynorthwyo dros y penwythnos diwethaf.

**106** **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny.**
Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2021 yn gywir.

**Materion yn codi:** Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion

**107** **Unrhyw ddeisebau a dderbynwyd**
Deiseb am lloches bws.
Nodwyd bod y deisebau uchod wedi dod i law ac yr ymdrinnid â hwy yn unol â chanllawiau'r Protocol Deisebau

**108** **Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**
Dim

**109** **Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda.**
i. Adroddiad gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar ddarpariaeth Gofal Cartref

ii. Adroddiad gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar y Gwasanaeth Canolfannau Lles a datblygiadau yng Nghanolfan Lles Llambed

Nodi cynnwys yr adroddiadau uchod.

**110** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ar drefniadau tâl y Crwner 2021/22**

Cymeradwyo'r cyfraddau tâl a ganlyn yn weithredol o 1af Ebrill 2021 (gan gynnwys y symiau ôl-daliad cysylltiedig sy'n ddyledus i'r Uwch Grwner a'r Crwner Cynorthwyol):

1) Uwch Grwner rhan-amser:

i) Cyflog Cadw o £21,120 y flwyddyn i gwmpasu argaeledd/cadw gwasanaeth y tu allan i oriau swyddfa o 1af Ebrill 2021 i 31ain Mawrth 2022.

ii) Defnyddio'r gyfradd ddyddiol o £465 a gytunwyd i dalu cyflog blynyddol o £11,625 i'r Crwner gan gynnwys diwrnodau hyfforddi - o 1af Ebrill 2021 i 31ain Mawrth 2022

iii) Costau swyddfa/lwfans cymorth busnes - £5,000 y flwyddyn o 1af Ebrill 2021 i 31ain Mawrth 2022.

2) Crwner Cynorthwyol:

O 1af Ebrill 2021 i 31ain Mawrth 2022 bydd y cyfraddau dyddiol yn:

- diwrnod llawn: £397; a
- hanner diwrnod: £199.

***Rheswm dros y penderfyniad:-:***

Cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a Chylchlythyron JNC, lliniaru her a diogelu cronfeydd cyhoeddus.

**111** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ar Adolygiad Blynyddol y Cynllun Rheoli Carbwn 2017/18 i 2022/23 (Blwyddyn 3 2020/21)**

i) Cytuno monitro maint Gostyngiad Carbon y Cyngor yn ystod a hyd at flwyddyn 3 o gyfnod cyfredol 5 mlynedd y Cynllun Rheoli Carbon, a oedd yn ostyngiad 28.77% mewn CO2 yn erbyn blwyddyn waelodlin 2017/18;

ii) Nodi a chymeradwyo cynnydd a chyflawniadau Cynllun Rheoli'r Cyngor hyd yma.

***Rheswm dros y penderfyniad:***

Yng Nghynllun Rheoli Carbon 2017/18 – 2022/23 a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 11 Mehefin 2019 cytunwyd y byddai Adolygiad Cynnydd Blynyddol yn cael ei gynnal a bod adroddiad diweddaru yn cael ei roi i'r Cabinet bob blwyddyn.

**112** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ar Siarad, Gwrando a Gweithio gyda'n Gilydd - Polisi Ymgysylltu Ddrafft gyda adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

Argymhellir bod y Cabinet yn cytuno i fersiwn ddrafft y Polisi Ymgysylltu ac yn cymeradwyo ei bod yn mynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod gaeaf 2021-22

Nodi'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*Mae'r polisi sydd gennym ar hyn o bryd 'Polisi Ymgysylltu â Chymunedau' yn dyddio'n ôl i 2012 ac yn lle'r polisi hwnnw, mae angen polisi newydd a fydd yn ystyried dulliau newydd o ymgysylltu, ac a fydd hefyd yn ystyried deddfwriaeth a chanllawiau diweddar. Yn ogystal â hynny, mae angen rhoi ystyriaeth i'r defnydd cynyddol o ymgysylltu digidol.*

**113 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ar Lythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Nodi cynnwys Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a chytuno ar y tri cham a nodwyd ynddo:

- Cyflwyno'r Llythyr Blynyddol i'r Cabinet er mwyn cynorthwyo aelodau wrth graffu perfformiad y Cyngor ac unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad.
- Parhau i ymgysylltu â gwaith CSA yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - gan gynnwys cael mynediad i hyfforddiant a darparu data perfformiad.
- Hysbysu'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o ganlyniad ystyriaethau'r Cyngor a'r camau gweithredu arfaethedig ar y materion uchod erbyn 15 Tachwedd 2020.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*Sicrhau gwelliant parhaus a sicrhau bod aelodau etholedig yn ymwybodol o berfformiad y Cyngor o ran cwynion.*

**114 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar fabwysiadu priffyrdd - Cae'r Odyn Bow Street**

Cymeradwyo mabwysiadu Cae'r Odyn drwy broses Adran 38 Deddf Priffyrdd 1980 a chynnal a chadw'r ffordd ar gost y cyhoedd.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*Er mwyn sicrhau y caiff y ffordd ei chynnal a'i chadw ar gost y cyhoedd.*

**115 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar fabwysiadu priffyrdd - Foel Goch, Bow Street**

Cymeradwyo mabwysiadu Foel Goch drwy broses Adran 38 Deddf Priffyrdd 1980 a chynnal a chadw'r ffordd ar gost y cyhoedd.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
Er mwyn sicrhau y caiff y ffordd ei chynnal a'i chadw argost y cyhoedd

**116 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ar gadarnhau enwebiadau Cynrychiolwyr ALl ar Fyrddau Llywodraethu**

Cadarnhau enwebu'r sawl a enwir yn yr aroddiad yn gynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol yr ysgolion perthnasol.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*Er mwyn enwebu cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol.*

**117** **Nodi adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ar Lesiant Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021 gyda adborth gan Bwyllgor Troslwg a Chraffu**
Nodwyd yr adroddiad a'r adborth oddi wrth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

**118** **Nodi adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ar adroddiad cynydd Is-grŵp Tlodi BGC - Strataegaeth mynd i'r Afal â Chaledi Gorffennaf 2021 gyda adborth gan Bwyllgor Troslwg a Chraffu**
Nodwyd yr adroddiad a'r adborth oddi wrth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

**119** **Nodi adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ar Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol BGC Ceredigion 2020-21**
Nodwyd yr adroddiad.

**120** **Nodi adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ar adroddiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 4 2020/21 gyda adborth gan Bwyllgor Troslwg a Chraffu**
Nodwyd yr adroddiad a'r adborth oddi wrth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

**121** **Nodi adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnar ar Adroddiad Blynyddol Uned Gofalwyr Ceredigion 2020-21 gyda adborth gan Bwyllgor Troslwg a Chraffu**
Nodwyd yr adroddiad a'r adborth oddi wrth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

**122** **Nodi adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnar ar Adroddiad Blynyddol y Grŵp Datblygu Gofalwyr Rhanbarthol 2020-21 gyda adborth gan Bwyllgor Troslwg a Chraffu**
Nodwyd yr adroddiad a'r adborth oddi wrth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

**123** **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**
Dim

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2021

**Cadeirydd:_________________**

**Dyddiad:__________________**